Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd/Gwasanaethau Preswyl Plant |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Preswyl - Arweinydd Shifft |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR08 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Uwch-weithiwr Preswyl |

---

**DIBEN Y SWYDD:**
Cynorthwyo'r Rheolwr Preswyl yn y gwaith o redeg y cartref o ddydd i ddydd i gydlynu a rheoli gwaith y gweithwyr preswyl i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu'n ddiogel yn unol â'u cynlluniau unigol. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â'r heddlu a gweithwyr cymdeithasol yn ogystal ag asiantaethau eraill wrth arwain y shifft.

Darparu gwasanaeth allgymorth ymatebol, hyblyg i blant, pobl ifanc, teuluoedd a gofalwyr maeth.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cymryd cyfrifoldeb am y shifft - ymdrin ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, a fydd yn cynnwys gwneud penderfyniadau ynghylch derbyn, gan ystyried y broses dderbyn. Cydlynu a rheoli gwaith y Gweithwyr Preswyl a datblygu a rheoli cynlluniau/strategaethau i sicrhau'r ffordd orau o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n cael eu lletya.
- Gweithio fel rhan o'r tîm preswyl i gyflwyno dull cyson o ddarparu gwasanaethau, gan gynorthwyo â datblygu'r gwasanaeth a rhoi gweithdrefnau'r Gyfarwyddiaeth ar waith.
- Cysylltu a gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu, gweithwyr cymdeithasol, aelodau eraill o staff, asiantaethau a sefydliadau sy'n ymwneud â gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc, fel bod cymorth a nodwyd yn cael ei gydlynu'n briodol.
- Datblygu cydweithio â phlant/pobl ifanc a rhieni/gofalwyr i gynorthwyo wrth ddatblygu Cynlluniau Gofal/Llwybr i gyflawni nodau a bennwyd.
- Cefnogi pobl ifanc i ddatblygu perthnasoedd personol, hunanddelwedd gadarnhaol, gyda pherthnasoedd anodd a phan fyddant yn gofidio. Integreiddio pobl ifanc i mewn i'r gymuned a hyrwyddo mynediad i wasanaethau yn y gymuned.
- Ymgymryd â gwaith allgymorth, darparu gwaith unigol/teulu gan ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau creadigol tymor byr/canolig sy'n briodol i ddiwallu eu hanghenion neu eu gofynion.

- Gweithio ar y cyd i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyrraedd Safonau'r Gyfarwyddiaeth a Safonau Cenedlaethol. Cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'n effeithiol, safonau uchel o ran arfer a chyflawni amcanion, nodau a thargedau a arfarnwyd.
- Cadw cofnodion cywir a chyfoes a sicrhau bod canllawiau cyfrinachedd a diogelu data yn cael eu dilyn. Cymeradwyo gwaith papur sy'n gysylltiedig â shifftiau a dosbarthu meddyginiaeth.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch hyfforddi a datblygu/cyfarfodydd tîm er mwyn cynnal eich datblygiad proffesiynol eich hun neu i wella cymhwysedd yn y swydd.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Preswyl wrth ddarparu'r gwasanaeth, gan ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n gymesur â gradd y swydd a chymryd rhan yn yr adolygiad rheolaidd o gynnwys y disgrifiad swydd. Adrodd yn briodol i'r rheolwr, uwch reolwyr ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Preswyl – Arweinydd Shifft

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Diploma FfCCh Lefel 3 mewn gofal Iechyd a Chymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc) Cymru neu gyfwerth; neu brofiad o gydlynu ac arwain staff mewn lleoliad preswyl gyda pharodrwydd i ennill y cymhwyster hwnnw. | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| | • Cofrestru (deuol lle y bo'n berthnasol) gyda Gofal Cymdeithasol Cymru neu ofyniad i gofrestru o fewn 6 mis, h.y. Gofal Preswyl Plant ac Oedolion. | Ydy | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad blaenorol o weithio gyda phlant a'u teuluoedd. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| | • Gwybodaeth a / neu brofiad o weithio gyda phlant ag anghenion cymhleth. | Ydy | |
| | • Gwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau'r cyngor gan gynnwys rheoliadau a chanllawiau'r Ddeddf Plant. | | |
| | • Gwybodaeth am asesiadau risg a dealltwriaeth o'r rhain. | | |
| | • Profiad o reoli/goruchwylio staff, arwain timau. | Ydy | |
| | • Profiad o gynnal gwaith unigol a grŵp gyda phlant ac oedolion ifanc. | | |
| | • Gwybodaeth am ganllawiau deddfwriaethol perthnasol e.e. RISCA, | | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | Deddf Galluedd Meddyliol, DoLS, Diogelu ac Iechyd a Diogelwch | | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu gwneud penderfyniadau’n briodol. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| | • Gallu diffinio a chyflawni targedau. | Ydy | |
| | • Gallu rheoli timau. | Ydy | |
| | • Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol | Ydy | |
| | • Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr ac asiantaethau eraill. | Ydy | |
| | • Ysgogiad, ymroddiad a chymhelliant ac uniondeb. | | |
| | • Gallu gweithio'n dda o dan bwysau gan ddefnyddio cymhelliant a meddwl yn gadarnhaol. | | |
| | • Gallu ymgymryd â hyfforddiant o natur gorfforol, e.e. PBM a chodi a chario. | | |
| | • Gallu gweithio’n hyblyg. | Ydy | |
| | • Ymrwymiad i ddatblygiad personol. | Ydy | |
| | • Meddu ar drwydded yrru. | | |
| | • Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |